# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 9fed 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones, Huw Edwards, Gwynfryn Williams a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles a Euros Puw.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.**
a) Sedd Wag – cyfethol aelod newydd
Derbyniwyd llythyr gan Geraint Thomas, Llidiardau yn datgan ei ddiddordeb mewn ymuno a'r Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i'w gyfethol fel cynghorydd a'i wahodd i'r cyfarfod ym mis Chwefror.

b) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned.
Eglurodd y clerc fod y cadeiriau wedi cyrraedd ac roedd y taflunydd a'r sgrin ar fin cael eu gosod yn y Neuadd. Unwaith fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau byddai'n bosib hawlio'r arian olaf yn nol a llenwi'r ffurflen adborth.

c) Ymateb i'r materion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Roedd gweithlu Cyngor Gwynedd wedi sgubo rhiw Parc ac wedi trwsio'r culfet ger Tyddyn Ronnen, Llidiardau.
ii) Roedd gweithlu'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi gwneud trefniadau i glirio ochr y ffordd i geisio clirio'r pwll dŵr a oedd yn hel ar yr A494 ger Cerrig Llwydion.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Arolwg Strategaeth Gwastraff Cyngor Gwynedd.

b) Llywodraeth Cymru.
i) Ymgynghoriad ar y newidiadau i reolau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.
ii) Cyflwyniad o'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27. Cytunwyd i fabwysiadu'r cynigion.

c) Amrywiol.
ii) Cwmpas – grant Prosiect Perthyn.

v) Ceisiadau Cynllunio.
Ni chyflwynwyd unrhyw gais cynllunio.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddilyn graddfeydd cyflog a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru a chynyddu cyflog y clerc o fis Ebrill 2026.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

b) Cyllideb a Praesept 2026/27.
i) Cytunwyd i ychwanegu arian ar gyfer cyflog y clerc, ffioedd archwilio'r cyfrifon a tal aelodaeth yr ICO. Cytunwyd i leihau'r gwariant ar gyfer costau banc gan nad oedd HSBC yn codi'r £5 ffi misol rhagor. Amcangyfrif y bydd £1,565 o ad-daliad TAW.
ii) Cytunwyd i gadw'r Praesept yn £4,750 ar gyfer 2026-27. Byddai hyn yn sicrhau fod digon o arian ar gael ar gyfer unrhyw wariant hanfodol ac fel bod 3 i 6 mis o wariant gros y cyngor tu cefn.

c) Taliadau
Cytunwyd i dalu'r canlynol:
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag)
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan)
iv) ICO
v) Grant Gwynedd Ni – cadeiriau Neuadd Parc (ad-daliad i'r clerc) £2117.40 ac anfoneb Alun Davies pan fydd y gwaith trydanol wedi ei gwblhau.

ch) Ceisiadau ariannol
i) Cafwyd ceisiadau gan Apêl Cronfa i Bawb yr Urdd 2025-26 ac Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Pwll o ddŵr yn hel ger Hafod y Nant, Parc.
ii) Dŵr yn llifo lawr rhiw Plas Madog a dŵr yn parhau i hel ger Wern Goch, Parc.
iii) Angen clirio'r ffordd i gyfeiriad Ffridd Isa gan fod dŵr yn hel wrth ymyl Tan Mynydd, Llidiardau.
iv) Croesffordd Arenig – roedd y contractwyr a oedd wedi bod yn gweithio ar y safle wedi cau'r 'french drain' ger corlan Bryn Maen ac roedd dŵr yn llifo i'r ffordd.
v) Ffos ger encilfa Nant yr Helfa angen ei hail agor.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 10fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….